Y dyn a'i enwair

Ymddiriedaeth / Gwrando ar eraill

Brithyll bychan ydw i. Mi rydw i wedi bod yn nofio am wythnosau efo'm brodyr a'm chwiorydd y llyn du wrth droed y mynydd. Mae'r haul wedi bod yn disgleirio drwy'r dŵr am ddyddiau. Mi rydw inna wedi bod yn nofio'n braf tua'r wyneb. Yn y fan honno mae hi'n gynnes iawn. O dro i dro byddaf yn gweld mam yn nofio i fyny i'r wyneb. Ond nid mynd yno ar gyfer y cynhesrwydd mae hi ond mynd i chwilio am fwyd. Bydd pryfed bychain yn hedfan uwchben y dŵr. Mae nifer ohonyn nhw wedi cael eu geni a'u magu yng ngwaelod y llyn. Mae'r pryfed bychain sy'n hedfan uwchben y dŵr yn bryd o fwyd blasus. Weithiau, bydd mam a rhai o'r pysgod mawr yn neidio allan o'r dŵr ac yn bwyta'r pryfed.

Un diwrnod fe benderfynais nofio ar draws y llyn i'r ochr arall. Doedd fy mrodyr na'm chwiorydd ddim yn hoff iawn fy mod yn mynd ar fy mhen fy hun. Ond mynd wnes i. Roedd y dŵr yn dywyll iawn yng nghysgod y mynydd. Bron nad oeddwn i'n gweld dim byd. Roedd ambell frithyll arall yn nofio o gwmpas ond doeddwn i ddim yn adnabod y pysgod yma. Ydi mae'r llyn yn fawr iawn i bysgodyn bach fel fi.

Roedd hi'n oerach o lawer yn y rhan yma. Dyma benderfynu nofio i ran oedd yn ymddangos i mi yn oleuach. Yn y fan honno roedd yna dipyn mwy o bysgod yn nofio'n braf. Roedd hi'n ganol dydd erbyn hyn a'r haul ar ei orau. Dawnsiai'r pryfed mân ar len y dŵr. Neidiais allan o'r dŵr a chefais lond ceg o bryfed blasus. Naid arall a mwy o bryfed blasus. Yn sydyn daeth cysgod sydyn dros y dŵr. Cysgod hir, du. Gwelais fod yna bry mwy na'r cyffredin yn hedfan uwchben y dŵr. Dyna bryd blasus! Ond roedd yn hedfan yn gyflym. Un munud roedd uwch fy mhen. Y munud nesaf roedd wedi hedfan i ffwrdd. Yna fe'i gwelais yn agos i'r lan lle roedd y dŵr yn taro yn erbyn y cerrig. Yna roedd yn hedfan yng nghanol y dŵr. Roedd hwn yn bry rhyfedd. Roedd hwn yn bry gwahanol

i'r cyffredin. Roedd o'n lliwgar ac yn llawer mwy na'r pryfed bach oedd yn hedfan o gwmpas. Yn sicr, mi fyddai hwn yn bryd blasus iawn. Mi fyddai yn fy nghadw'n ddiddig am ddyddiau.
Beth am roi un llam o'r dŵr i geisio'i ddal? Ond roedd wedi diflannu unwaith eto. Wel dyma bry rhyfedd!
Dacw fo, unwaith eto, yn hedfan yn isel dros y dŵr. Dyma fy nghyfle olaf cyn iddo ddiflannu. Un llam enfawr... Ond, O, mae rhywbeth yn sownd yn fy ngheg. Rydw i'n cael fy llusgo'n ara tua'r lan. Mae'r pry hwn wedi anafu ochr fy ngheg. Mae'n rhaid i mi ei boeri allan o'm ceg. Gyda chryn ymdrech mi lwyddais. Nofiais yn ôl i'r ochr arall i'r llyn. Roedd fy mrodyr a'm chwiroydd wedi bod yn poeni amdanaf. Fe ddywedais fy stori wrthyn nhw. Pwy oedd yn gwrando ar fy stori ond un o'r hen, hen bysgod oedd yn byw yn y llyn.
Fo, soniodd wrtha i am y dyn a'i enwair. Mi fûm i'n fwy gofalus byth wedyn.

Diolch i Ti O Dduw, am fy amddiffyn pan fydda i mewn perygl. Amen.

✦ Beth ydi'ch barn chi am bobl sy'n mynd i bysgota? Fyddech chi'n dweud fod pysgota yn greulon?
✦ Pa ddrwg mae pysgota â bachyn yn ei wneud i adar?